# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Cati Chwech (6)** |
| Adnoddau: | Y dysgwyr i chwilio am 6 pheth o gwmpas y dosbarth, e.e.<br>6 thegan<br>6 bloc<br>6 deilen<br>6 blodyn<br>6 phensil<br>6 llyfr. |
| Camau: | Cam 1 - Darllenwch a thrafodwch y llyfr ‘Cymeriadau Difyr: Cati Chwech’.<br><br>Cam 2 - Y dysgwyr i fynd i grwpiau bach o 3-4. Anogwch nhw i chwilio am 6 gwrthrych concrid yn y dosbarth neu'r tu allan. Y dysgwyr i drafod y gwrthrychau a chyfrif gyda'i gilydd.<br><br>Cam 3 - 1 plentyn yn cuddio'r gwrthrychau yn y dosbarth neu yn yr ardal allanol. Yna, rhaid iddyn nhw roi cyfarwyddiadau i'r plant eraill i ddarganfod y gwrthrychau, e.e. symudwch ymlaen 10 cam, yn ôl 6 cam. Ailadroddwch hyn gyda gwrthrychau gwahanol a phawb yn cael tro.<br><br>Cam 4 - Gall yr athro roi cyfarwyddiadau os oes angen. |
| Cwestiynu: | • Ydy'r gwrthrychau yn drwm / ysgafn?<br>• Sawl gwrthrych sydd yna? |
| Beth nesaf? | • Y dysgwyr i fesur y gwrthrychau gan ddefnyddio unedau ansafonol.<br>• Cymharu gwrthrychau (e.e. tegan â phensil). Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio cymariaethau, e.e. ‘byrrach na/hirach na’. |



Peniarth .cymru

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales